

TORRI I MEWN I'R CASTELL! A ALLWCH CHI DRECHU?



Mae gwarchae yn eich tref ac rydych chi'n rhan o bobl y dre.

Mae'ch teulu y tu mewn i'r castell ac mae angen i chi fynd i mewn i sicrhau eu bod nhw'n iawn

Ond mae'r castell wedi'i gloi i lawr!

Allwch chi 'TORRI MEWN?'

Oherwydd eich gwybodaeth am y castell rydych wedi sleifio trwy'r amddiffynfeydd allanol - heibio'r fyddin sy'n ymosod a'u harfau rhyfel:



Mae'r arfau'n enfawr ac yn ddychrynlyd ac rydych chi'n gobeithio na fyddan nhw'n tanio ar y castell gyda'ch ffrindiau a'ch teulu y tu mewn.

Rydych chi'n gwneud nodyn cof o'r hyn y gall pob arf ei wneud fel y gallwch chi hysbysu'r rhingyll ar ôl i chi fynd i mewn.

BALISTA

Mae'r Ballista yn arf pwerus iawn, sy'n gallu saethu dartiau mawr (1.5m o hyd) ac sy'n gallu eu tanio cyn belled â 100 metr.

MANGONEL

Y Mangonel enfawr sy'n gallu hyrddio cerrig bychain (dim mwy na 5 cilo) a thaflegrau eraill tua 110 metr. Mae'n cael ei bweru gan droelli rhaff neu gewyn yn dynn iawn - pan fydd y rhaff yn dad droelli, mae'n symud y fraich ac yn tanio'r gwrthrych.

Fe'i defnyddir hefyd i saethu peli tân (cerrig wedi'u lapio â lliain sy'n socian mewn olew sy'n fflamio) i geisio gosod y castell ar dân!

The TREBUCHET

Mae'r Trébuchet yn hynod gywir ac fe'i defnyddir yn bennaf i hyrddio cerrig mawr (15 cilo) cyn belled â 120 metr, ac fe'i defnyddir i niweidio waliau'r castell a hefyd i ddinistrio'r adeiladau y tu mewn.

Os nad yw hynny'n ddigon drwg, maen nhw wedi bod yn hyrddio anifeiliaid marw i ledaenu afiechyd y tu mewn i'r castell

Rydych chi'n cyrraedd yr amddiffynfeydd mewnol, yn flinedig, yn oer ac yn llwglyd.

Nid yw'r gwarchodwyr wedi sylwi arnoch chi gan fod y gelyn wedi dechrau tanio un o'r peiriannau rhyfel.

Rydych chi'n mynd i banig ac edrych o gwmpas - does gennych chi ddim llawer o amser!

Rydych chi'n gweld y **Porthcwlis** yn y giât drom sy'n cael ei gostwng a'i chodi ar gadwyni neu raffau, ac sy'n cael ei dal yn ei lle gan gerrig y wal, mae ar gau ac mae angen i chi fynd i mewn.

Mae **Bylchau Saethwr** ar y ddwy ochr. Mae'r rhain yn caniatáu i'r milwyr aros yn ddiogel y tu ôl i'r waliau wrth iddynt danio saethau a bolltau bwa croes trwy'r agoriadau.

Rydych chi'n gwybod os gallwch chi fynd trwy'r porthcwlis bydd 'meurtriëre' (**tyllau llofruddiaeth**) uchod, Meurtriëre yw'r hen air Ffrangeg am 'llofruddio'. Ni fydd yr amddiffynwyr yn eich adnabod chi fel ffrind a byddant yn gollwng pethau trwy'r tyllau hyn - cerrig trwm, tywod poeth, dŵr berwedig a phethau cas eraill fel wrin a baw... Ych a fi!

Mae'r porthdy'n llawn amddiffynfeydd !!! Sut ydych chi'n mynd i fynd drwyddynt?

Mae'r porthcwlis wedi'i wneud o bren gyda phigau metel ar y gwaelod. Mae ei ddyluniad delltlog yn golygu pan fydd i lawr, gall pobl yn ward fewnol y castell weld pwy sy'n agosáu, a gallant danio saethau atynt. Dim ond o'r tu mewn i'r adeilad y gallwch chi godi a gollwng y porthcwlis. Mae'r drysau i du mewn yr adeilad y tu ôl i'r porthcwlis. Mae angen y gwarchodwyr arnoch i'w godi!

Rydych chi'n mynd yn ofalus, yn dal eich dwylo yn yr awyr gan obeithio y byddan nhw'n gofyn pwy ydych chi cyn tanio.

Dywedodd eich cefnder wrthyh am chwilio am neges gudd ar y wal sydd ar gyfer ffrindiau yn unig, er mwyn rhoi cyfrinair i'r gwarchodwyr:

Mae'n dweud i agor y porthcwlis mae'n rhaid i chi ddatrys y tri phos hyn yn y drefn hon a gweiddi'r atebion i'r gard yn y twr.

Rydych chi'n gwybod bod gennych saethwr yn anelu bwa atoch chi ac yn crynu wrth geisio datrys y posau:

- a) Os yw CI yn gant ag un, be fyddi DI?
- b) Beth sy'n digwydd unwaith ym mhob dydd, ddwywaith ym mhob blwyddyn, ond byth mewn canrif?
- c) Beth sy'n perthyn i chi, ond mae pobl eraill yn ei ddefnyddio mwy na chi?

Allwch chi ddatrys y pos?

- A) Eich Enw 500 Y
- B) 101 D Enw'r Gard
- C) 501 Y Eich Enw
- D) 100 D Enw eich ffrind gorau





Rydych chi'n gweiddi'r ateb ac mae'r porthcwlis yn agor yn araf ac mae darn o femrwn yn hedfan i'r llawr.

Rydych chi'n ei godi ac yn gweld cyfres o symbolau od.

1.	1	10	100	1000
2	11	20	200	2000
3	111	30	300	3000
4	1111	40	400	4000
5	7	50	500	5000
6	2	60	600	6000
7	2	70	700	7000
8	11	80	800	8000
9	2	90	900	9000

Rydych chi'n camu heibio'r porthcwlis ac yn edrych ar y drws pren mawr sy'n gwahardd eich ffordd i'r ward fewnol. Rydych chi'n gwybod na fydd y gwarchodwyr yn ymddiried ynoch chi eto ac mae gennych chi amser cyfyngedig i brofi'ch teyrngarwch. Mae'r drysau wedi'u gwneud o dderw solet - tua 5-7 centimetr o drwch.

Maen nhw'n cael eu dal ar gau gan far o drawstiau derw enfawr. Mae un pen o'r bar yn cael ei wthio i dwll dwfn ar un ochr, ac mae'r pen arall yn cael ei wthio i dwll yr ochr arall. Mae'r garreg o amgylch y tyllau yn dal y bar yn gadarn yn ei le.




Tra'ch bod chi'n edrych ar y drws ac yn meddwl sut i fynd trwyddo, mae cerrig a chreigiau mawr yn dechrau cwmpo arnoch chi.

- * Mae saethau'n cael eu saethu atoch chi o'r naill ochr a'r llall!
- * Yn sydyn mae'n beryglus iawn bod yma!
- * Mae'n dechrau bwrw wrin a dŵr berwedig!
- * Rydych chi'n edrych i fyny ac yn gweld tyllau mawr uwch eich pennau!
- * Nid ydyn nhw'n cael eu galw'n 'dyllau llofruddio' am ddim !!!

Rydych chi'n edrych o gwmpas yn wyllt wrth osgoi'r ymosodiad.

Yn sydyn fe welwch set o symbolau od wedi cael eu crafu ar y waliau.



Mae'r gard yn gweiddi arnoch chi am gyfrinair! Mae gennych eiliadau cyn i'r saethwyr ddod o hyd i'w targed.

Rydych chi'n gweiddi allan

A 7471

B 4771

C 1774


D 1477





Mae'r drws yn agor yn sydyn ac mae rhywun yn cydio yn eich dillad a'ch gwthio ymlaen.

"Beth yw eich pwrpas yma?" bloeddia'r gard.



"Rwy'n edrych am fy rhieni syr" dywedwch.


Rydych chi'n dweud eu henwau wrth y gwarchodwr ac mae'n eich anfon at y masnachwr agosaf i ofyn am gyfarwyddiadau.




Nid yw'r masnachwr yn ddyn llawen ac mae'n gofyn i chi am rywbeth yn ôl.



Mae'r masnachwr yn dweud wrthyhch fod 3 byrnau o wllân yn pwyso'r un peth â 2 rolyn o liain



Mae angen i chi eich helpu chi i weithio allan faint fydd 1 bwrn o wllân yn ei bwyso os yw 6 byrnau gwlân a 3 rholyn o liain yn pwyso cyfanswm o 12.6 kg




Faint mae 1 bwrn o wllân yn ei bwyso?

- A, 1.6 kg
- B, 1.2 kg
- C, 1.4 kg
- D, 0.85 kg






Gyda ffon yn y baw mae'r masnachwr yn tynnu llun o'r cyfarwyddiadau i'r man diwethaf iddo weld eich rhieni. Mae'n chwerthin yn ddrygionus ac rydych chi'n tybio pam? Rydych chi'n gwneud nodyn cof o'r cyfarwyddiadau.




Allwch chi ddod o hyd i ba ffordd i fynd?


A,




B,



C,



D,







Rydych chi'n dilyn y cyfarwyddiadau yn gywir heibio'r holl warchodwyr ac yn dod at ddrws pren cadarn sy'n llawn cloeon. Wedi'i grafu i'r pren mae pos:

Mae amser a llanw yn aros i neb

Nid yw castell yn adeiladu chwaith

Gan ein harglwydd Frenin Edward mae gennym y castell hwn

Sawl cestyll yng Nghymru sydd ganddo law?

<https://cadw.gov.wales/learn/histories/castles-and-town-walls-edward-i>

- A) 19
- B) 18
- C) 17
- D) 16





Mae'r drws yn gwichian ar agor ac rydych chi'n rhuthro y tu mewn, rydych chi'n gweld eich rhieni'n sefyll o'ch blaen ac yn rhedeg tuag atynt.

Yn rhy hwyr rydych chi'n sylweddoli'ch amgylchedd, rydych chi yn nhŵr y carchar ac mae'r drws yn cau yn glec y tu ôl i chi. BANG!

Rydych chi wedi dod o hyd i'ch rhieni ond nawr! RHAID I CHI DDIANC O'R CASTELL!



Edrychwch am y bennod gyffrous nesaf

DIANC O'R CASTELL!